# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 09.01.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, Malcolm Hills, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** David Griffiths, Louise Hughes.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.12.18 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Huw Davies **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.12.18):**
   a) **Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril – 2019-20 & 2020-21**
      Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau bydd y cyfraniad yn aros yr un fath - hynny yw £2,000 am ddarpariaeth dymhorol, a bydd Cyngor Gwynedd yn anfonebu yn flynyddol, ond bod cytundeb am ddwy flynedd mewn lle
      **Penderfyniad** ➞ rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd fod Cyngor Cymuned Llangelynnin am fod yn rhan o'r Cynllun yma am y ddwy flynedd nesaf. **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Huw Davies.
   b) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril** - Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod arwydd newydd wedi ei roi yno i gyfeirio'r cyhoedd i'r toiledau cyhoeddus agosaf yn Fairbourne, os ydi toiledau cyhoeddus Llwyngwril ar gau.
   c) **Ben Davies a Sam Hadley o Network Rail** wedi cadarnhau eu bod yn gallu mynychu'r cyfarfod nesaf → **13.02.19**.

5. **Gohebiaeth:** Dim

6. **Materion Cynllunio:**
   a) **Cais: NP5/69/LB326B - Tŷ Gwyn, Llwyngwril –** Cais ôl-weithredol i newid defnydd o ganolfan addysg awyr agored i lety gwyliau ar gyfer grwpiau mawr o bobl - (mwy na 25)
      **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
   b) **Cais: NP5/69/LB150D - Tŷ Nant, Llwyngwril - dymchwel rhan o wal derfyn a chreu mynediad newydd……**
      nodwyd sylwadau a chynnwys llythyr a gafodd ei anfon i'r Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Cymuned Llangelynnin gan Geraint Lewis Associates, ynglyn a'r cais yma.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Rhagfyr 2018 yn gywir.
   **Cynnig –** John Griffiths **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Ian Williams.

   a) **Praesept 2019-20 - Cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd cyn 25.01.19**
      Pawb yn gytûn i gadw'r Praesept yr un fath a llynedd = **£9,800.00**
      Bydd yn cael ei dalu mewn dau randaliad o £4,900.00 ym mis Ebrill ag Awst 2019.
      **Cynnig:** Keith Carroll **Eilio:** Dylan Thomas.

**b)** Rhodd-daliadau blynyddol i'r Ganolfan, Mynwentydd y plwyf ag i'r Ambiwlans Awyr- cafodd y rhain eu trafod
**Penderfyniad** ➞ dim newid, ond adolygu'r sefyllfa eto blwyddyn nesaf.

**c)** Derbynneb gan Gyngor Gwynedd am y gwaith torri gwair yn y cae chwarae am y flwyddyn ddiwethaf = £900.00.

**d)** Anfoneb wedi ei dderbyn gan Grace Greenhow = £10.00.

**e)** Coeden Nadolig Rhoslefain – heb dderbyn anfoneb hyd yma.

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>** Dim

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Dim yn bresennol.

**10. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

**a)** **Polisi Iaith** - Polisi Cytunedig ar sut mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal eu cyfarfodydd a chyflwyno eu gwybodaeth – wedi ei adolygu a'i harwyddo gan y Cadeirydd.

**b)** **Biniau Halen** - dim ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'n hymholiad diwethaf
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd eto, a gofyn am anfoneb manwl o'r ddarpariaeth/gwasanaeth sydd wedi eu cyflawni hyd yma.

**c)** Cwynion wedi eu derbyn gan aelodau'r gymuned ynglyn a problem gyda parcio ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 13.02.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**